Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

# Model cyllido prentisiaethau: ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 14 Mai 2026 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2026/17 |
| **At:** | Benaethiaid darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru<br>Darparwyr prentisiaethau presennol yng Nghymru / Deiliaid contractau prentisiaeth wedi'u comisiynu<br>Cyrff cynrychioli cyflogwyr<br>Cyrff cynrychioli dysgwyr<br>Cynrychiolwyr addysg awdurdodau lleol |
| **Ymatebwch erbyn:** | **19 Mehefin 2026** |
| **Rhagor o wybodaeth:** | prentisiaethau@medr.cymru |


**Crynodeb:**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn i ddarparwyr prentisiaethau, cyflogwyr a rhanddeiliaid presennol a darpar ddarparwyr prentisiaethau, cyflogwyr a rhanddeiliaid am safbwyntiau i lywio'r gwaith o ddylunio'r model cyllido prentisiaethau newydd i Gymru, a fydd yn cael ei ddefnyddio o 1 Awst 2027 ymlaen.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

**Crynodeb**

Nod Cynllun Strategol Medr yw ‘creu system addysg drydyddol hyblyg a chydgysylltiedig lle y gall pawb ddysgu'r sgiliau a'r wybodaeth y bydd eu hangen arnynt ar gyfer economi a chymdeithas sy'n newid’. Rydym wedi ymrwymo i ddylunio darpariaeth prentisiaethau ar gyfer y dyfodol mewn ffordd sy'n ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran sgiliau a diwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r economi. Mae prentisiaethau'n ysgogiad allweddol i gynyddu cynhyrchiant a helpu i dyfu gweithlu medrus ac amrywiol.

Bydd y rhaglen brentisiaethau newydd yn dechrau ar 1 Awst 2027 a bydd yn fwy ymatebol a hyblyg er mwyn ymateb i'r newidiadau yn ein heconomi.

Ym mis Medi 2025, gwnaethom gynnal ymgynghoriad a oedd yn cynnwys ymgysylltu â darparwyr addysg drydyddol, cyrff diwydiant, cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad wedi helpu i lywio'r gwaith o ddylunio'r rhaglen brentisiaethau newydd ac egwyddorion model cyllido newydd. Cynhelir digwyddiadau ymgysylltu ym mis Mai 2026 i drafod dyluniad y rhaglen newydd.

Rydym nawr yn ceisio safbwyntiau ar y canlynol:

- egwyddorion lefel uchel y model cyllido newydd
- manteision y model cyllido newydd
- canlyniadau anfwriadol rhoi'r model cyllido newydd ar waith
- costau ychwanegol prentisiaethau

Byddem yn croesawu ymatebion i'r ymgynghoriad gan unigolion sydd â phrofiad o gynnal prentisiaethau ac eraill sydd â diddordeb yn y rhaglen brentisiaethau newydd. Bydd clywed gan randdeiliaid yn allweddol er mwyn helpu i lywio'r model cyllido newydd ac ystyried unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn llawn.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar y model cyllido ar gyfer prentisiaethau ar lefelau 2-5. Rydym yn gwneud gwaith pellach er mwyn deall a oes angen gwneud newidiadau i'r model cyllido ar gyfer gradd-brentisiaethau.

Byddwn yn cynnal digwyddiad ymgynghori ar:

- 3 Mehefin 2026, 10.00-11.30 – sesiwn ar-lein – Bydd dolen i drefnu lle yn y sesiwn ar-lein ar ein gwefan.

I gael dweud eich dweud, llenwch y ffurflen ateb yn **Atodiad A** ac anfonwch hi i prentisiaethau@medr.cymru erbyn 19 Mehefin 2026.

## Cyflwyniad

1. Mae Medr yn ymrwymedig i sicrhau bod y rhaglen brentisiaethau'n parhau i fodloni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran sgiliau a diwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r economi ehangach wrth iddynt ddatblygu, fel rhan o system addysg drydyddol hyblyg a chydgysylltiedig. Wrth i ni barhau i ddylunio'r rhaglen newydd, rydym yn ceisio safbwyntiau gan randdeiliaid allweddol a darparwyr hyfforddiant, er mwyn helpu i lywio model cyllido ar gyfer y dyfodol.

2. Ym mis Medi 2025, gwnaethom gynnal ymgynghoriad er mwyn llywio'r gwaith lefel uchel o ddylunio’r rhaglen brentisiaethau newydd. Roedd yr adborth o'r ymgynghoriad yn amhrisiadwy er mwyn sicrhau ein bod yn creu rhaglen sy'n fwy ymatebol a hyblyg er mwyn mynd i'r afael ag anghenion dysgwyr a blaenoriaethau o ran sgiliau yn ein heconomi sy'n newid.

3. Gwnaethom ymrwymo i gynnal ymgynghoriad pellach ar y model cyllido prentisiaethau newydd arfaethedig. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i chi rannu eich syniadau a'ch gwybodaeth am y model arfaethedig. Mae **Atodiad A** yn cynnwys cyfres o gwestiynau yr hoffem gael eich adborth arnynt er mwyn helpu i gwblhau dyluniad terfynol y model cyllido prentisiaethau.

## Datganiad Polisi Buddsoddi Medr

4. Bydd Medr, yn unol ag Adran 87 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, yn cyhoeddi datganiad polisi ar y ffordd y mae Medr yn bwriadu arfer ein pwerau cyllido. Bydd y datganiad hwn yn destun ymgynghoriad yn ystod haf 2026 er mwyn sicrhau y caiff yr holl randdeiliaid, gan gynnwys dysgwyr, darparwyr addysg drydyddol a phartneriaid eraill gyfle i lywio'r egwyddorion a fydd yn sail i atebolrwydd Medr wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau buddsoddi a monitro. Rydym wedi profi'r model cyllido prentisiaethau newydd yn erbyn ein datganiad polisi buddsoddi drafft er mwyn sicrhau ei fod yn gyson. Byddwn yn adolygu hyn yn rheolaidd nes bod y model a'r datganiad wedi'u cadarnhau'r derfynol.

## Dyfarnu grantiau'r rhaglen brentisiaethau newydd

5. O fis Awst 2027 ymlaen, bydd y rhaglen brentisiaethau yn newid o fod yn un a gaiff ei chynnal drwy gaffael a chomisiynu i fod yn fodel dyfarnu grantiau. Bydd hyn yn cyd-fynd â threfniadau cyllido Medr ar gyfer yr holl ddarpariaeth addysg drydyddol arall, gan ein helpu i gyflawni ein nod o sicrhau sector mwy cydgysylltiedig a chydlynol.

6. Bydd y broses gwneud cais am grantiau prentisiaeth yn dechrau ar 1 Medi 2026. Caiff rhagor o wybodaeth am drefniadau'r grantiau newydd ei chyhoeddi ar wefan Medr maes o law.

## Pam rydym yn ymgynghori?

7. Mae prentisiaethau'n ysgogiad allweddol i godi lefelau sgiliau, cynyddu cynhyrchiant a helpu i dyfu gweithlu medrus ac amrywiol sy'n addas i'r diben. Bydd y rhaglen

newydd yn fwy ystwyth ac ymatebol er mwyn sicrhau'r cymwysterau a'r sgiliau cywir i ddiwallu anghenion cyflogwyr, dysgwyr a'r economi o fis Awst 2027 ymlaen. Mae arnom angen model cyllido sydd hefyd yn hyblyg er mwyn diwallu anghenion y rhaglen brentisiaethau newydd.

8. Rydym wedi datblygu model cyllido newydd sy'n ymateb i'r adborth a gafwyd i'r ymgynghoriad blaenorol ar brentisiaethau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y model yn canolbwyntio'n fwy ar y dysgwr ac yn fwy hyblyg er mwyn bodloni gofynion sy'n newid.

9. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i gynnig mewnbwn i lywio'r model cyllido prentisiaethau ar gyfer y dyfodol.

### Canlyniad yr ymgynghoriad

10. Bydd yr ymgynghoriad yn llywio dyluniad manwl terfynol y model cyllido newydd, a gaiff ei ddefnyddio o 1 Awst 2027 ymlaen.

### Digwyddiadau ymgynghori

11. Byddwn yn cynnal digwyddiad ymgynghori er mwyn helpu i lywio'r model cyllido

    - Digwyddiad ar-lein ar 3 Mehefin 2026, 10am – 11:30am

### Sut i ymateb

12. Cwblhewch yr holiadur yn **Atodiad A** ac anfonwch ef i prentisiaethau@medr.cymru erbyn 19 Mehefin 2026. Mae'n bosibl na chaiff ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn eu hystyried.

**Beth yw'r model cyllido prentisiaethau presennol?**

Rhaglen brentisiaethau ar lefelau 2-5

13. Caiff cyllid ar gyfer prentisiaethau ei roi'n uniongyrchol i'r darparwyr dysgu seiliedig ar waith a gaffaelir ar ôl i'r fframweithiau prentisiaethau gael eu cyflwyno i ddysgwyr. Mae'r fframweithiau hyn i'w gweld yn Dod o hyd i fframwaith prentisiaeth.

14. Ceir 23 o fframweithiau sector, ac mae pob un ohonynt yn cynnwys llwybrau fframwaith sy'n perthyn i fand cyllido fframwaith. Ceir 16 o fandiau cyllido ar gyfer prentisiaethau ar lefel 2-5 (mae gwerthoedd y bandiau cyllido i'w gweld yn **Atodiad B**). Er mwyn penderfynu i ba fand cyllido y bydd pob llwybr fframwaith yn perthyn, cynhelir dadansoddiad o'r costau y bydd darparwyr yn mynd iddynt wrth gyflwyno'r rhaglen ddysgu gyfan sy'n rhan o'r fframwaith, gan gynnwys tystiolaeth y bydd y darparwyr dysgu yn ei chyflwyno i Medr. Wedyn, caiff y wybodaeth ei chofnodi mewn Meistr-daenlen Model Costau Gweithgareddau er mwyn pennu cyfanswm y costau cyflwyno. Mae hon yn broses gymhleth iawn sy'n defnyddio llawer o adnoddau ac nad yw'n agored nac yn dryloyw. Ar ôl i gostau cyflwyno'r llwybrau fframwaith gael eu pennu, caiff pob llwybr fframwaith ei osod yn y band cyllido agosaf, gan dalgrynnu os bydd angen.

15. Pan fydd darparwyr dysgu'n dechrau cyflwyno'r fframwaith i ddysgwyr, caiff data eu cyflwyno i'n system ar gyfer Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Ar sail y data a gyflwynir, caiff darparwyr dysgu eu talu bob mis mewn ôl-daliadau a fydd yn cynnwys y taliadau canlynol:

- Taliad mynediad penodedig
- Taliad cyflwyno yn seiliedig ar hyd penodedig hyfforddiant
- Taliad cyrhaeddiad o 3% ar ôl i'r fframwaith prentisiaeth gael ei gwblhau'n llwyddiannus

Cynnydd ar gyfer y Gymraeg

16. Ar hyn o bryd, caiff cynnydd o 19.21% ei ychwanegu at y costau cyflwyno misol a delir i ddarparwyr dysgu pan gaiff darpariaeth ei chyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn seiliedig ar ragdybiaeth y bydd y darparwyr dysgu'n cyflwyno hanner y ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gradd-brentisiaethau

17. Ar gyfer gradd-brentisiaethau, telir uchafswm o £27,000 fesul dysgwr dros gyfnod o 3-5 mlynedd am 360 o gredydau. Gwerth credyd yw £75 yr un, sef y gyfradd safonol ar gyfer yr holl fframweithiau. Bydd prifysgolion yn cael eu talu am y credydau y bydd dysgwyr yn eu hennill, a hynny ddwywaith y flwyddyn.

**Y sail resymegol dros newid**

18. Nid yw'r model presennol yn cynnig hyblygrwydd i ymateb i anghenion dysgwyr a chyflogwyr am y rhesymau canlynol:

- Mae'r taliadau'n seiliedig ar hyd penodedig y fframwaith prentisiaeth ac nid ydynt yn ystyried dysgu blaenorol, cymwysterau sydd wedi'u hennill eisoes, gallu dysgwr i wneud cynnydd cyflymach na'r angen i ddysgwr gael amser neu gymorth ychwanegol.

- Bydd darparwyr dysgu'n cael yr un cyllid ni waeth pa brofiad neu gymwysterau sydd gan ddysgwr.
- Mae'r dadansoddiad a gynhelir i bennu cost pob fframwaith yn gymhleth ac nid yw'n dryloyw.
- Gall dysgwyr aros ar raglen am fwy o amser na'r angen er mwyn galluogi darparwyr dysgu i gael gwerth llawn y fframwaith.
- Gallu cyfyngedig i fod yn hyblyg wrth ymdrin â chymwysterau dewisol, heb fod nifer o wahanol fandiau cyllido ar gael ar gyfer pob fframwaith prentisiaeth.
- Dim hyblygrwydd os bydd dysgwyr yn gadael ac yn ailymuno â'r rhaglen yn nes ymlaen.

19. Mae Medr wedi ystyried a dadansoddi nifer o opsiynau er mwyn datblygu model cyllido newydd ar gyfer y rhaglen brentisiaethau a'i roi ar waith. Ni fyddai'r model cyllido prentisiaethau presennol yn addas ar gyfer bodloni nodau ac amcanion y rhaglen newydd, fel y nodir yn y pwyntiau bwled uchod. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys gwybodaeth a chyfres o gwestiynau ynglŷn â'r model cyllido a ffefrir er mwyn diwallu anghenion y rhaglen yn y dyfodol.

<u>Gradd-brentisiaethau</u>

20. Mae gwaith pellach wrthi'n mynd rhagddo i gefnogi'r model cyllido ar gyfer gradd-brentisiaethau yn y dyfodol. Dechreuodd y model cyllido presennol yn ystod cyfnod y cynllun peilot gradd-brentisiaethau, a pharhaodd i gael ei ddefnyddio fel rhan o fusnes fel arfer. Nid yw'r model cyllido presennol ar gyfer gradd-brentisiaethau wedi cael ei adolygu.

21. Bydd gwaith pellach yn ein helpu i ddeall costau cyflwyno gradd-brentisiaethau yng Nghymru. Mae'r dadansoddiad yn ymchwilio i weld i ba raddau y mae £27,000 am 360 o gredydau yn dal yn lefel gyllido resymol ar gyfer gradd-brentisiaethau yng Nghymru ac a fyddai cyfradd safonol o £27,000 waeth beth fo'r fframwaith/pwnc yn fwy priodol. Byddwn yn gweithio gyda'r prifysgolion a'r sector addysg drydyddol ehangach i fwrw ymlaen â hyn. Rydym yn disgwyl i'r dull cyllido ar gyfer gradd-brentisiaethau gyd-fynd â'r egwyddorion lefel uchel a nodir yn yr ymgynghoriad, er enghraifft y pwyslais ar ddeilliannau, ond bydd y dull manwl yn wahanol. Felly, nid yw cyllid ar gyfer gradd-brentisiaethau o fewn cwmpas yr ymgynghoriad hwn.

## Beth yw'r model cyllido prentisiaethau newydd arfaethedig?

22. Mae Medr wedi datblygu model cyllido newydd a fydd yn symud i **fodel deilliannau** sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac sy'n seiliedig ar y gofynion dysgu a fydd gan brentis unigol er mwyn cwblhau ei fframwaith prentisiaeth yn llwyddiannus, yn hytrach na hyd a maint penodedig. Bydd y model yn cynnig mwy o hyblygrwydd i deilwra'r fframwaith yn unol ag anghenion dysgwyr a chyflogwyr.

23. Bydd gan lwybrau'r fframweithiau prentisiaethau uchafswm gwerth cyllid a fydd yn cynnwys holl elfennau prentisiaeth fel y'u nodir yn Adran 115 o'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil, sef:

- Cymwysterau – rhai cymhwysedd a gwybodaeth neu rai cyfunol
- Cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (os bydd angen) mewn:
    - Cyfathrebu

    - Cymhwyso rhif
    - Llythrennedd digidol
- Unedau cymwysterau dewisol, cymwyseddau diwydiant/galwedigaethol
- Hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith

24. Mae Medr yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar y gofynion newydd, a fydd yn disodli Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru, a disgwylir iddynt fod yn destun ymgynghoriad yn yr hydref.

**Sut y byddwn yn pennu gwerth fframwaith?**

25. Mae Medr yn cynnig symud i ffwrdd o fodel cymhleth presennol y Feistr-daenlen Model Costau Gweithgareddau a newid i fodel cyllido mwy agored a thryloyw, lle y bydd pob elfen o'r fframwaith prentisiaeth yn cael Gwerth Uned Medr ac yna'n cael ei phwysoli yn ddibynnol ar faes pwnc sector. Bydd gan bob fframwaith uchafswm gwerth cyllid a gaiff ei gyhoeddi yn Llyfrgell Fframweithiau newydd Medr (a gaiff ei lansio ym mis Awst 2027).

Unedau Medr

26. Bydd maint y dysgu yn cael ei ddyrannu i bob un o'r elfennau cyflwyno o fewn fframwaith. Caiff hyn ei fynegi mewn Unedau Medr. Caiff maint y dysgu ei luosi â'r pwysoliadau a Phris Uned Medr. Gwerth ariannol un Uned Medr yw Pris Uned Medr.

Pwysoliadau

27. Bydd y pwysoliadau'n seiliedig ar bwysoliadau maes pwnc sector a phwysoliadau aseswyr gan adlewyrchu gwahanol gostau cyflwyno. Er enghraifft, bydd gan beirianneg bwysoliad uwch na gweinyddu busnes. Bydd Medr yn ymgysylltu â'r rhwydwaith darparwyr prentisiaethau er mwyn cadarnhau'r pwysoliadau pan fydd y model cyllido wedi'i gadarnhau'n derfynol.

28. Caiff pwysoliad fframwaith ei gymhwyso at bob llwybr prentisiaeth (gweler trefn restrol arfaethedig pwysoliadau'r fframweithiau yn **Atodiad C**). Bydd y drefn restrol yn gyson â'r pwysoliadau maes pwnc sector ym mhob rhan o'r sector addysg drydyddol, ond mae'n bosibl y bydd union werth y pwysoliadau'n wahanol oherwydd y gwahaniaethau rhwng y ffyrdd y caiff prentisiaethau a mathau eraill o ddarpariaeth eu cyflwyno.

Pris Uned Medr

29. Bydd gan Bris Uned Medr werth ariannol penodedig ar gyfer yr holl fframweithiau, ond mae'n bosibl y bydd yn newid dros amser. Nid yw Pris Uned Medr wedi'i ddiffinio eto, ond caiff ei feincnodi yn erbyn prisiau cyflwyno cymaradwy yn y sector addysg drydyddol.

Gwerth Fframwaith

30. Gwerth Fframwaith = Maint y Dysgu (Unedau Medr) x Pwysoliad x Pris Uned Medr.

Llyfrgell Fframweithiau Medr

31. Mae llwybr prentisiaeth yn nodi'r gofynion ar gyfer cwblhau prentisiaeth Gymreig mewn galwedigaeth benodol. Mae llwybrau o fewn sector yn ffurfio fframwaith, a elwir yn fframwaith sector prentisiaethau. Ar hyn o bryd, ceir 23 o fframweithiau sector sydd i'w gweld ar lwyfan gwybodaeth o'r enw 'Llyfrgell Fframweithiau'.

32. Bydd Llyfrgell Fframweithiau newydd Medr yn cynnwys 18 o fframweithiau sector wedi'u mireinio, ynghyd â'r Uned Medr ar gyfer pob elfen o brentisiaeth a'r uchafswm gwerth cyllid ar gyfer pob llwybr prentisiaeth.

**Sut y byddwn yn cyllido darparwyr dysgu?**

33. Bydd y fethodoleg gyllido'n newid yn fodel seiliedig ar ddeilliannau, a fydd yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Asesu a sefydlu
- Costau cyflwyno
- Ennill tystysgrif fframwaith

Asesu a Sefydlu

34. Yn ychwanegol at y broses sefydlu gyda chyflogwyr a dysgwyr, bydd darparwyr dysgu'n cynnal asesiad o bob dysgwr er mwyn pennu gofynion cyflwyno'r fframwaith/llwybr. Bydd yr asesiad yn cynnwys:

- Cydnabod dysgu blaenorol perthnasol. Bydd darparwyr dysgu'n penderfynu a yw prentis eisoes wedi cwblhau cymhwyser sy'n rhan o'r fframwaith/llwybr prentisiaeth. Dim ond cymwysterau a gwblhawyd ac a enillwyd fyddai'n cael eu cydnabod, ac nid cymwysterau rhannol na chredydau.
- Sgiliau hanfodol a enillwyd neu gymwysterau sgiliau hanfodol sy'n ofynnol
- Cymwysterau o fewn y fframwaith prentisiaeth i'w cwblhau
- Hyfforddiant yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith i'w gwblhau
- Unedau dewisol, cymwyseddau diwydiant/galwedigaethol i'w cwblhau. Bydd hyn er mwyn ymateb i anghenion diwydiant a symud gyda'r oes wrth i dechnolegau newid.
- Cyrsiau neu gymwysterau Sgiliau Gyrfa sy'n ychwanegol at ofynion y fframwaith, yn seiliedig ar anghenion y cyflogwr/yr alwedigaeth
- Dyddiad dechrau a dyddiad gorffen disgwyliedig y dysgwr
- Gofynion o ran anghenion dysgu ychwanegol

35. Bydd canlyniad yr asesiad yn fodd i gyfrifo'r Gwerth Uned Medr a fydd yn ofynnol er mwyn i'r dysgwr gwblhau'r fframwaith (gwerth cyllid), a hyd y cyllid (am sawl mis y dylai'r dysgwr gael ei gyllido).

36. Bydd y taliad asesu a sefydlu yn seiliedig ar gyfradd benodedig safonol, a chaiff ei dalu i'r darparwyr prentisiaethau ar gyfer pob dysgwr, a'i ddyrannu i'r mis pan ddechreuodd y fframwaith prentisiaeth. Mae'r Tîm Prentisiaethau wedi ymgysylltu'n gychwynnol â darparwyr dysgu ynghylch cost bosibl cynnal y broses asesu estynedig hon. Rydym yn cynnig cynyddu'r taliad asesu a sefydlu o £285 i £400.

Costau Cyflwyno

37. Bydd y costau cyflwyno'n seiliedig ar y gwerth cyllid a bennir ar sail canlyniad yr asesiad, a byddant yn cynnwys y costau cyflwyno drwy gydol hyd y brentisiaeth. Caiff yr hyd ei bennu drwy'r asesiad.

38. Caiff cyfanswm y costau cyflwyno eu pennu drwy dynnu'r taliad asesu a sefydlu a'r taliadau deilliannau o werth y cyllid prentisiaeth.

39. Os bydd yr asesiad yn dod i'r casgliad bod prentis eisoes wedi cwblhau cymhwyster sy'n elfen o'r fframwaith/llwybr, gan gynnwys cymwysterau procsi sgiliau hanfodol, bydd y Gwerth Uned Medr cyfatebol yn cael ei ddidynnu o'r uchafswm gwerth cyllid.

Cyrhaeddiad Fframwaith

40. Bydd ffocws mwy pendant ar ddeilliannau llwyddiannus i ddysgwyr sy'n cwblhau'r fframwaith cyfan. Caiff hyn ei gydnabod drwy daliad o 20% o werth cyllid y brentisiaeth, a gaiff ei dalu ar ôl i'r dystysgrif fframwaith gael ei hennill.

41. Os bydd dysgwr yn cwblhau'r fframwaith yn llwyddiannus yn gynharach na'r disgwyl, bydd y darparwr yn cael taliad am werth llawn y cyllid cyn belled â bod y dysgwr wedi cwblhau o leiaf 12 mis o ddysgu. Bydd hyn am fod y darparwr wedi ymgymryd â'r holl weithgareddau gofynnol mewn cyfnod byrrach. Mae'r isafswm hyd o 12 mis yn diogelu natur prentisiaeth Gymreig fel rhaglen ddysgu sy'n datblygu cymhwysedd galwedigaethol.

## Costau Ychwanegol

42. Mae Medr, fel yr amlinellir yn ei gynllun gweithredol, wrthi'n cynnal adolygiad trylwyr o fodelau cyllido ym mhob rhan o'r sector addysg drydyddol er mwyn pennu blaenoriaethau ar gyfer newid.

43. Bydd y rhaglen brentisiaethau'n ystyried canfyddiadau'r adolygiad hwn maes o law. O fis Awst 2027 nes y bydd dull ehangach Medr wedi'i gadarnhau, cynigir dyrannu cyllideb ar wahân ar gyfer y rhaglen brentisiaethau er mwyn helpu darparwyr dysgu i ddenu amrywiaeth eang o ddysgwyr o bob cwr o Gymru i ddilyn prentisiaethau, a helpu i'w cadw. Bydd y cyllid hwn hefyd yn annog ac yn ehangu gweithgarwch i gyflwyno prentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

44. Mae'r meysydd y bydd y cyllid ychwanegol hwn yn eu cefnogi yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:

- Dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog
- Cefnogi dysgwyr o gymunedau o amddifadedd
- Cefnogi dysgwyr anabl
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Mentora ar gyfer cyflogwyr a dysgwyr

**Cysoni**

45. Mae Medr yn bwriadu rhoi adroddiadau cyllido misol i ddarparwyr dysgu. Bydd yr adroddiadau hyn yn dangos costau ar gyfer pob dysgwr, gan gynnwys:
    - Taliad asesu a sefydlu
    - Taliadau cyflwyno misol
    - Taliadau cwblhau'n gynnar
    - Taliadau deilliannau
    - Unrhyw gostau ychwanegol

46. Bydd hyn yn galluogi darparwyr dysgu i gael adroddiadau manwl ar bob dysgwr. Bydd adroddiadau gwrthod dysgwyr yn dangos pa ddysgwyr nad ydynt wedi cael eu cyllido a'r rhesymau dros hynny (e.e. gwallau mewnbynnu data). Bydd yr adroddiadau hyn yn galluogi darparwyr dysgu i gysoni bob mis.

**Crynodeb o'r newidiadau arfaethedig i'r model cyllido prentisiaethau**

47. Dyma grynodeb o'r newidiadau arfaethedig i'r model cyllido prentisiaethau:

<u>Gwerth fframwaith</u>

- Bydd sefydlu'r uchafswm gwerth fframwaith yn symud i ffwrdd o fodel cymhleth y Feistr-daenlen Model Costau Gweithgareddau tuag at broses agored a thryloyw lle y caiff yr uchafswm gwerth cyllid ei gyhoeddi, yn seiliedig ar Werthoedd Unedau Medr ar gyfer pob elfen o'r fframwaith, ac yna caiff pwysoliad priodol ei ddyrannu iddo yn ddibynnol ar y maes pwnc sector. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd yn agosach â'r dulliau cyllido a ddefnyddir ar gyfer rhannau eraill o'r sector addysg drydyddol.

<u>Cyflwyno</u>

- Caiff gwerth fframwaith prentisiaeth penodedig a delir ar sail amser dysgu ei ddiddymu, gan symud tuag at ddull sy'n canolbwyntio'n fwy ar y dysgwr lle y bydd y darparwr, y dysgwr a'r cyflogwr yn pennu elfennau gofynnol y fframwaith, drwy'r asesiad cychwynnol.

- Y darparwr, y cyflogwr a'r dysgwr fydd yn pennu hyd y brentisiaeth, yn hytrach na bod iddi hyd penodedig. Caiff y rheol 80%, lle y bydd yn rhaid i ddysgwyr barhau i ddysgu er mwyn i ddarparwyr dysgu allu cael 80% o'u cyllid, ei diddymu.

- Bydd isafswm hyd o 12 mis ar gyfer prentisiaeth ac ni chaiff uchafswm amser penodedig ei bennu. Bydd yr amser a fydd yn ofynnol i ddysgwr unigol yn seiliedig ar ganlyniad asesiad y darparwr.

- Bydd dysgwyr sy'n cwblhau'n llwyddiannus yn gynnar yn cael gwerth llawn y cyllid gan y byddai'r darparwyr dysgu wedi cwblhau'r holl ddysgu gofynnol ar gyfer y prentis.

- Caiff dysgu blaenorol cydnabyddedig ei ystyried ar gyfer y cymhwyster gwybodaeth a'r cymwysterau sgiliau hanfodol, gan arwain at lai o ddyblygu dysgu a chyllid.

- Bydd yn rhaid i bob dysgwr gwblhau'r cymhwyster cymhwysedd, a hynny er mwyn diogelu natur y brentisiaeth fel rhaglen ddysgu sy'n datblygu cymhwysedd galwedigaethol.

- Bydd uchafswm gwerth cyllid ar gyfer pob llwybr fframwaith yn seiliedig ar Werthoedd Unedau Medr ei elfennau.

Deilliannau

- Mae'r model cyllido presennol yn canolbwyntio ar hyd y brentisiaeth yn hytrach na blaenoriaethu ei chwblhau'n llwyddiannus. Bydd y model cyllido newydd yn newid i daliad deiliannau o 20%, gan roi mwy o ffocws ar gwblhau'n llwyddiannus.

**Effaith Polisïau**

48. Wrth i'r rhaglen brentisiaethau newydd gael ei datblygu, gan gynnwys adolygu methodoleg a modelau cyllido, byddwn yn cynnal prawf sgrinio asesiadau effaith er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. Byddwn hefyd yn ystyried effaith polisïau ar y Gymraeg a darpariaeth Gymraeg yn y sector addysg uwch yng Nghymru, a'r effeithiau posibl ar y gallu i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant.

49. Cysylltwch ag em.cynhwysiant@medr.cymru i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau effaith.

**Rhagor o wybodaeth**

50. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn at Dîm Prentisiaethau Medr (prentisiaethau@medr.cymru).

# Cwestiynau'r ymgynghoriad

| Rhif | Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|---|
| **1** | A fydd y model hwn yn arwain at unrhyw ganlyniadau anfwriadol o gymharu â'r model presennol? | Bydd / Na fydd<br><br>Gwnewch sylwadau i ategu eich ymateb, gan gynnwys unrhyw enghreifftiau o ganlyniadau anfwriadol posibl: |
| **2** | Yn y model cyllido newydd, rydym yn bwriadu dilysu data cymwysterau o'r wybodaeth a fydd wedi'i chynnwys yn y llyfrgell fframweithiau newydd ar ddechrau'r rhaglen yn hytrach nag yn ystod y dysgu.<br><br>A fydd hyn yn arwain at unrhyw effeithiau ar ddarparwyr dysgu o ran goblygiadau amser a chost? | Bydd / Na fydd<br><br>Gwnewch sylwadau i ategu eich ymateb, gan gynnwys unrhyw enghreifftiau o effeithiau posibl ar ddarparwyr dysgu o ran goblygiadau amser a chost: |
| **Sut y byddwn yn pennu gwerth fframwaith?** | | |
| **3** | Rydym yn cynnig cynyddu'r taliad asesu a sefydlu o £285 i £400.<br><br>A yw taliad o £400 yn adlewyrchiad teg o'r gofynion asesu a sefydlu ychwanegol? | Ydy / Nac ydy<br><br>Gwnewch sylwadau i ategu eich ymateb: |
| **4** | I ba raddau ydych chi'n cytuno â threfn restrol y costau cyflawni ar gyfer y fframweithiau sector? (gweler y drefn restrol arfaethedig ar gyfer fframweithiau sector yn **Atodiad C**). | Cytuno'n gryf / Cytuno / Anghytuno / Anghytuno'n gryf<br><br>Gwnewch sylwadau i ategu eich ymateb: |
| **Sut y byddwn yn cyllido darparwyr dysgu?** | | |
| **5** | Caiff yr hyd ei bennu ar sail prentisiaid unigol er mwyn galluogi hyblygrwydd o fewn y system. A fydd yr hyblygrwydd hwn yn arwain at unrhyw effeithiau neu ganlyniadau anfwriadol? | Bydd / Na fydd<br><br>Gwnewch sylwadau i ategu eich ymateb: |

| Rhif | Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|---|
| | | |
| **6** | Cynigir y bydd y model cyllido newydd yn symud i daliad deiliannau o 20%, gan roi mwy o ffocws ar gwblhau'n llwyddiannus.<br><br>Beth yw manteision allweddol symud i fodel deilliannau? | |
| **7** | A yw taliad deilliannau o 20% yn cynnig gwerth canrannol priodol? | Ydy / Nac ydy<br><br>Os 'Nac ydy', pam ddim? |
| **Costau ychwanegol** | | |
| **8** | A oes unrhyw gostau ychwanegol pellach yr hoffech i ni eu hystyried? | Oes / Nac oes<br><br>Gwnewch sylwadau i ategu eich ymateb: |
| **9** | Nid ydym yn cynnig unrhyw gyllid ychwanegol pan fydd yn rhaid i ddysgwyr ailsefyll cymwysterau. A fydd y dull hwn yn arwain at unrhyw ganlyniadau anfwriadol? | |
| **10** | Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau cadarnhaol neu negyddol tebygol ein cynigion ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |
| **11** | A oes unrhyw ystyriaethau eraill y dylem fod yn ymwybodol ohonynt a fyddai'n cael effaith gadarnhaol neu effaith fwy cadarnhaol ar: gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â | |

| Rhif | Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|---|
| | thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | |
| **12** | A oes unrhyw ystyriaethau eraill y dylem fod yn ymwybodol ohonynt er mwyn sicrhau na fyddai ein cynigion yn cael effeithiau andwyol, neu y byddent yn lleihau'r effeithiau andwyol ar: gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | |
| **13** | A fydd y cynigion yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015? | Bydd<br>Yn rhannol<br>Na fydd<br>Rhowch fanylion: |
| **14** | A fydd y cynigion yn cyfrannu at:<br>Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu'n unol â hi?<br><br>Hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phersonau nad ydynt yn ei rhannu?<br><br>Meithrin cysylltiadau da rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phersonau nad ydynt yn ei rhannu?<br><br>Lleihau'r anghydraddoldebau o ran deilliannau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol? | Bydd<br>Yn rhannol<br>Na fydd |
| **15** | A oes unrhyw wybodaeth ychwanegol yr hoffech ei bwydo i mewn i'r ymgynghoriad? | |

# Y Cyfraddau Cyllido Presennol ar gyfer Fframweithiau Prentisiaethau

Awst 2024

| Rhif y Band | Cyllid Mynediad | Cyllid Cyflwyno | Cyllid Cyrhaeddiad | Gwerth y Band |
|---|---|---|---|---|
| 1 | 285.27 | 3,691.92 | 119.31 | 4,096.50 |
| 2 | 285.27 | 4,522.80 | 144.24 | 4,952.32 |
| 3 | 285.27 | 5,553.10 | 175.16 | 6,013.53 |
| 4 | 285.27 | 6,372.92 | 199.75 | 6,857.94 |
| 5 | 285.27 | 7,691.26 | 239.30 | 8,215.83 |
| 6 | 285.27 | 8,721.56 | 270.21 | 9,277.04 |
| 7 | 285.27 | 9,641.08 | 297.79 | 10,224.14 |
| 8 | 285.27 | 10,604.91 | 326.70 | 11,216.89 |
| 9 | 285.27 | 11,635.21 | 357.62 | 12,278.10 |
| 10 | 285.27 | 12,610.12 | 386.86 | 13,282.26 |
| 11 | 285.27 | 14,116.80 | 432.06 | 14,834.14 |
| 12 | 285.27 | 15,756.42 | 481.25 | 16,522.95 |
| 13 | 285.27 | 17,728.40 | 540.41 | 18,554.08 |
| 14 | 285.27 | 18,636.83 | 567.67 | 19,489.77 |
| 15 | 285.27 | 20,930.09 | 636.46 | 21,851.83 |
| 16 | 285.27 | 23,104.52 | 698.56 | 24,088.36 |

**Atodiad C**

# Trefn Restrol Pwysoliadau Fframweithiau Sector Prentisiaethau

Cynigir y bydd y pwysoliadau'n lleihau wrth fynd i lawr o frig y rhestr i'r gwaelod. Bydd trefn restrol y meysydd pwnc sector yn gyson ym mhob rhan o'r sector addysg drydyddol. Cytunir ar werthoedd y pwysoliadau drwy ymgynghori â'r rhwydwaith darparwyr prentisiaethau.

| Fframwaith Sector | Pwysoliad (i'w gadarnhau) |
|---|---|
| Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Gofalu am Anifeiliaid | |
| Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig | |
| Peirianneg | |
| Bwyd a Diod | |
| Gweithgynhyrchu | |
| Trafnidiaeth, Moduron a Logisteg | |
| Creadigol, Dylunio a'r Cyfryngau | |
| Arlwyo a Lletygarwch | |
| Gwallt a Harddwch | |
| Gwasanaethau Eiddo | |
| Digidol | |
| Gwyddoniaeth ac Ynni | |
| Chwaraeon a Hamdden | |
| Y Gyfraith, Cyllid a Chyfrifyddu | |
| Rheoli, Busnes a Manwerthu | |
| Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar | |
| Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant | |
| Gwasanaethau Cyhoeddus a Diogelu | |

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**